

eithrio'r golau a ddeuai i mewn i'r ysgubor drwy agor ei drysau mawr. Yn wahanol i fuchod neu gnydau, mae angen llawer o olau ar bobl er mwyn iddynt fod yn gysurus.

Mewn adeilad fferm, oherwydd ei swyddogaeth wreiddiol, prin yw'r ffenestri neu agoriadau tebyg, os oes rhai o gwbl, a cheir drysau solet yn hytrach na drysau gwydr. Gyda'i gilydd mae golwg solet iawn ar yr adeiladau heb fawr o agoriadau. Mewn gwrthygyferbyniad, mewn tŷ modern cyffredin efallai y byddai'r un faint o waliau ag agoriadau. Pan gaiff drysau estyll eu troi'n ddrysau gwydr, neu pan gaiff agoriadau newydd eu creu mewn waliau sy'n solet fel arfer, mae cymeriad adeilad fferm yn newid. Nid yw'r un mor argyhoeddiadol mwyach fel ysgubor, beudy neu stabl. O ran pensaernïaeth wreiddiol adeiladau fferm, nid oeddent byth yn cynnwys ffenestri yn y to a oedd yn agor felly dylid eu hosgoi. Mae ffenestri dormer yn addas weithiau fel dewis arall, oherwydd gallant edrych yn weddol debyg i ddrysau llwytho.

Bydd addasiad sensitif yn anelu at ddwyn cymaint o olau â phosibl o ffynonellau sy'n bodoli eisoes ac o ffynonellau newydd a grëwyd drwy agoriadau sy'n bodoli eisoes. Mae'n bwysig osgoi gwneud agoriadau newydd a gosod gormod o wydr mewn waliau. Gall hyn arwain at fannau y tu mewn i'r adeilad nad ydynt yn olau iawn a lle mae angen golau artiffisial ond gellir manteisio ar hyn i greu cymeriad unigryw a gall fod yn effeithiol os caiff ei gyfuno â lliwiau cynnes. Mewn ysgubor, mae dau agoriad mawr fel arfer y gellir gosod gwydr ynddynt y tu ôl i ddrysau pren (y dylid

for threshing or winnowing except that provided by opening the big barn doors. People, unlike cows or crops, need lots of light for comfort.

Because of its original function, a farm building often has few or no windows or other similar openings, and solid rather than glazed doors. Together this creates an appearance that is strongly solid with few openings. By contrast, the average modern house might have an equal split of wall to openings. When boarded doors become glazed doors, or when new openings are punched into otherwise blank walls, the character of a farm building changes. It no longer looks convincing as a barn, cow house, or stable. As originally built, farm buildings never had opening rooflights so these should be avoided. Dormers are sometimes a suitable alternative, because they loosely resemble loading doors.

A sensitive conversion will aim to borrow as much light as possible from existing sources and new sources made from existing openings. It is important to avoid making new openings and over-glazing the elevations. This may result in areas of the interior having subdued lighting and requiring artificial light, but this can be used to advantage in creating individual character and can be effective when combined with warm colours. In a barn there are usually two large openings that can be glazed behind timber doors (which should be retained) and the light flooding in from these can, through skilful design, be



Ateb dyfeisgar i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r golau sydd ar gael gan gadw at gymeriad agored i adeiladwaith y to: mae'r llawr uchaf yn benthg golau oddi isod drwy'r paneli gwydr yn y llawr.

An innovative solution to maximizing the available light and keeping an open appearance to the roof structure: the upper storey borrows light from below by means of glass panels in the floor.



eu cadw) a thrwy gynllun da gellir sicrhau bod y golau sy'n llifo i mewn o'r rhain yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r adeilad. Er enghraifft, mae gosod y drysau gwydr yn ôl yn fodd i gael golau i'r mylon yn ogystal â'r ardal tu blaen i mewn i ran ganolog yr adeilad. Yn y llofftudd gellir gosod band o wydr yn uchel yn eu paredau fel bod y golau yn dod yn bennaf drwy ganol yr adeilad yn hytrach nag o ffenestr fawr yn y wal. Efallai y bydd y dull hwn yn codi materion ynglŷn â chydymffurfiaeth â Rheoliadau Adeiladu (tt. 27–28).

Defnyddiwch cyn lleied o wydr â phosibl a manteisiwch i'r eithaf ar unrhyw wydr a osodir.

Gwresogi ac awyru

Yn gyffredinol, nid oedd angen gwresogi adeiladau fferm ac felly mae'n rhaid ystyried sut y dylid cyflwyno gwres neu inswleiddio er mwyn gwneud yr adeilad yn addas i bobl fyw ynddo. Dylid defnyddio ffelt anadlol wrth inswleiddio toeon. Nid yw system gwresogi canolog gonfensiynol yn briodol. Gall gwres tanllawr fod yn effeithiol, ond mae'n rhaid cymryd gofal i ailosod llawrlechi.

Ceir systemau awyru modern nad ydynt yn amharu braidd dim ar gymeriad hanesyddol (un enghraifft yw'r 'System Tŷ Cyfan' fel y'i gelwir) sy'n osgoi'r angen am dyllau aer hidlo a mathau amlwg eraill o awyru. Wrth ddewis boeler dylid dewis system lle gellir awyru drwy'r wal ac yna gosod y boeler fel y gellir codi wal anymwithgar. Dylech osgoi systemau sy'n gofyn am dyllau awyru drwy'r to os yw'n bosibl ond lle mae'n rhaid gwneud hyn dylid cadw pibellau ffwrn dur gloyw mor fyr â

allowed to filter into most parts of the building. For example, setting the glazed doors back allows for light to be borrowed sideways as well as forwards into the central part of the building. Upstairs bedrooms can be given a band of glazing high in their partition walls so that their light comes not from a large window in the elevation but mainly through from the centre of the building. This approach may raise issues to do with compliance with Building Regulations (pp. 27–28).

Minimize new glazing and maximize the benefit of any that is introduced.

Heating and ventilation

In general, farm buildings did not need to be heated and so the introduction of heat and insulation for human occupation has to be carefully considered. Where roof insulation is required, breathable felt should be used. A conventional central heating system is not appropriate. Underfloor heating can be effective, though care should be taken to re-instate stone flagged floors.

There are modern ventilation systems that have minimal impact on historic character (one, for example, is known as the 'Whole House System') which avoids the need for trickle vents and other prominent ventilators. When installing a boiler it is best to opt for a system that can vent through the wall and then place the boiler so that a discreet wall can be used. It is best to avoid those that require venting through the roof but where this has to be done shiny stainless

Top: Mae'r gwydro yn yr agoriad (chwith) yn gilfachog er mwyn cadw ymddangosiad allanol (de) yr agoriadau awyru hynod yn yr ysgubor garreg hon yn Sir Gaerfyrddin. Uchod: Mae gwydro agoriad blaenorol drws yr ysgubor yn ffordd dda o adael golau i mewn i'r adeilad yn enwedig pan gaiff y gwydro ei osod yn ôl mewn ffrâm syml. Gyferbyn: Yn yr addasiad hwn yn Sir Fynwy, defnyddiwyd gwydr ar gyfer paredau i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r golau o'r agoriadau gwreiddiol.

Top: The glazing of the opening (left) is recessed to preserve the exterior appearance (right) of the distinctive ventilation slits in this stone barn in Carmarthenshire. Above: Glazing the large former barn door openings is a good way of allowing light into the building, especially when the glazing is recessed and is set into a simple frame. Opposite: In this barn conversion in Monmouthshire, glass was used for partitions to maximize the light from existing openings.





Yng nghynllun yr addasiad hwn mae'r paredau wedi'u cynllunio i barchu swyddogaeth wreiddiol yr adeilad.

In this conversion scheme, the partitions have been designed to respect the original function of the building.

phosibl a'u paentio'n ddu er mwyn sicrhau eu bod yn llai amlwg. Nid yw pentanau a simneiau cysylltiedig yn nodweddion arferol mewn adeiladau fferm ac felly ni ddylid byth eu cyflwyno; mae hyn yn cynnwys ffyrnau sy'n llosgi coed.

Cyflwynwch system sy'n rhoi'r lefel o wres ac awyru sydd ei hangen heb orfod gwneud newidiadau diangen i'r adeilad, gan osgoi gosod simneiau, pibellau ffwrn dur gloyw a gwyntyllau echedynnu amlwg.

Nodweddion Mewnol

Mae natur fawreddog ysguboriau mawr yn deillio i ryw raddau o'r uchder mawr o'r llawr a'r nenfwd gyda'r unig olau yn dod drwy dyllau bach yn y waliau a chyfres o drawstiau to yn unig yn batrwm rheolaidd ar ben hynny. Mae unrhyw ymgais i rannu'r tu mewn yn difetha'r cymeriad arbennig hwnnw. Mae i lawer o adeiladau fferm, er mor syml eu cynllun, nodweddion mewnol diddorol neu gymeriad hanesyddol. Er enghraifft, tŷ seidr lle mae'r felin a'r wasg afalau yn dal yno; ac mae nodweddion o'r fath yn ddigon prin fel na ddylent gael eu symud hyd yn oed er cyfleuster.

Ni ddylid gosod nenfwd mewn adeiladau sydd â thrawstiau to da mewn ffordd sy'n eu cuddio. Os na ellir cael digon o le i'r pen ar y llawr cyntaf, dylid diwygio'r addasiad yn hytrach na thorri trawstiau to, er y gall fod adegau lle y byddai'n dderbyniol codi trawst croes.

Os oes angen glanhau'r pren, dylid gwneud hyn heb ddefnyddio technegau sgwrio â thywod, a dylid ei adael yn ddi-staen (a

steel flues should be kept as short as possible and painted black to make them less noticeable. Fireplaces and associated chimneys are alien features to farm buildings and so should never be introduced; this includes fashionable wood burning stoves.

Introduce a system that provides the required level of heat and ventilation without unnecessary alteration to the building, avoiding chimneys, shiny metal flues and prominent extractors.

Internal features

Large barns derive some of their majestic quality from the long and high internal space lit solely by slit vents and punctuated only by a series of roof beams. Dividing this interior destroys that special character. Many farm buildings, though simpler, have interesting internal features or historic character. For example, a cider house may have the mill and press still in place; and such features are sufficiently rare that they should not be moved even for convenience.

Ceilings should not be inserted in buildings with good roof trusses in such a way that these are obscured. If adequate first-floor headroom cannot be achieved, the design of the conversion should be revised instead of cutting the roof trusses, though there may be occasions where it would be acceptable to raise a collar beam.

If the timbers need cleaning this should be done without abrasive sandblasting, and they should be left unstained (or

pheidio â'i 'wella' fel arall) er mwyn cadw cymaint o'r cymeriad amaethyddol â phosibl.

Dylid ystyried yn ofalus sut i drin y waliau a'r paredau a godwyd. Nid oes angen defnyddio byrddau sych gan y derbynnir gan mwyaf na ellir inswleiddio adeilad fferm wedi'i addasu i'r un graddau â'r hyn sydd ei angen ar adeiladau newydd. Byddai plastr calch yn ddewis gwell. Bydd hyn yn creu ystafelloedd mwy cyfforddus a golau na waliau cerrig moel, ond byddai hefyd yn gadael i bobl weld strwythur y wal. Mae gorffeniadau â phaent yn cyfrannu at gymeriad y tu mewn a dylid defnyddio gorffeniadau llai adlewyrchol a lliwiau megis lliwiau melynllwyd a dugoch yn hytrach na lliwiau paentiau gwyn modern disgrlair neu baentiau sglein. Waeth beth fo'r lliw, dylid defnyddio paentiau mandyllog yn hytrach na phaentiau emylsiwn.

Dylai'r broses addasu ddiogelu a chadw unrhyw nodwedd sy'n bwysig i hen swyddogaeth yr adeilad fferm yn ei phriod le a dylid rhannu'r tu mewn cyn lleied â phosibl.

Gorffeniadau allanol

Mae haenau o wyngalch yn creu gorffeniad allanol dilys ar gyfer llawer o adeiladau fferm traddodiadol ac mae'n briodol iawn lle ceir tystiolaeth o'i ddefnydd yn y gorffennol. Roedd gwyngalch yn ddeunydd selio mandyllog ar gyfer diogelu'r adeilad rhag y tywydd, a dyna pam y'i gwelir yn aml ar adeiladau ar yr ucheldir neu ar yr arfordir. Byddai ffermwyr yn dewis defnyddio gwyngalch y tu mewn i adeiladau oherwydd ei nodweddion glanweithdra, sy'n hyrwyddo lles anifeiliaid. Ni ddylech byth dynnu gwyngalch sy'n bodoli

otherwise 'improved') to retain as much of the agricultural character as possible.

The treatment of the walls and inserted partitions should be carefully considered. Dry-lining is not necessary as it is usually accepted that the levels of insulation required for new buildings cannot be achieved in a converted farm building. A better alternative is to apply a lime plaster. This will provide a more comfortable and lighter interior than bare stone walls, but still allows the structure of the wall to be seen. Paint finishes contribute to the character of the interior and brilliant modern whites and gloss paints should be avoided in favour of flatter finishes and muted, earthy colours. Whatever the colour, breathable paints should be used rather than emulsions.

Conversion should preserve and retain in place any feature significant to the former use of the farm building, and interior divisions should be kept to a minimum.

External finishes

Layers of limewash create an authentic external finish for many traditional farm buildings and it is especially appropriate where there is surviving evidence of its previous use. Limewash provided the building with a breathable sealant to protect it from the elements, and that is why it is often seen in upland and coastal situations. Internally, limewash was favoured by farmers for its hygienic properties, promoting animal welfare. Existing limewash should never be



Mae gwyngalch yn orffeniad traddodiadol ar gyfer adeiladau fferm yn fewnol ac yn allanol.

Limewash is a traditional finish for farm buildings, on both internal and external surfaces.



Dylid paentio gwaith pren yn hytrach na'i staenio ac mae lliwiau tywyll yn well, yn enwedig y rhai sy'n adlewyrchu traddodiadau'r ystad leol.

Woodwork should be painted rather than stained and dark, muted colours are preferable, especially those that reflect local estate traditions.

eisoes i ddatgelu cerrig neu frics moel. Dylai rendrad gwyngalch ar y tu allan i adeiladau fod yn gyflawn; dylid rendro hyd at waelod waliau ac ni ddylid ei dorri'n ôl yn artiffisial i ddatgelu'r gwaith cerrig oddi tano.

Dylai waliau gael eu pwyntio â mortar calch sy'n cynnwys tywod lleol. Dylai'r mortar bob amser fod yn feddalach na'r deunydd y mae'n ei rwymo. Dylai uniadau gael eu gosod yn ôl ychydig, neu fod wedi'u taenu â mortar mewn manau lle mae cerrig sydd wedi'u naddu'n fras.

Byddai gwaith coed yn cael ei baentio neu ei adael i hindreulio yn naturiol. Roedd lliw'r paent yn aml yn dangos i ba ystad wledig yr oedd fferm yn perthyn; er enghraifft, defnyddid lliw browngoch tywyll unigryw gan Ystad Penrhyn a oedd yn ymestyn dros rannau helaeth o ogledd-orllewin Cymru, defnyddiai ystad Llanofor liw llwydlas a defnyddiai Dolaucothi liw coch. Er mwyn diogelu gwaith coed yn unig y defnyddid paent ac nid er mwyn gwneud yr adeilad i edrych yn hardd, ac yn yr hen ddyddiau defnyddid lliwiau o anifeiliaid neu waed ych i greu lliwiau dwfn, wedi'u gosod yn drwchus. Lliwiau paent tywyll di-sglein neu led-sglein yw'r math gorau i adlewyrchu'r traddodiad iwtilitaraidd hwn ac maent yn helpu'r gwaith coed i gydweddu â'r waliau. Cylch rheolaidd o ailbaentio (bob pedair blynedd neu'n amlach) yw'r ffordd orau o ddiogelu gwaith coed, a gellir twtio ar y paent yn achlysurol, yn ôl yr angen. O ran adeiladau rhestredig Gradd I a Gradd II* gellir defnyddio paent plwm ag iddo ardstiad priodol. Nid yw'r defnydd o staen, ar y llaw arall, yn draddodiadol ac mae'n creu gorffeniad

stripped to reveal bare stone or brick. Lime-rendering of the exterior should be complete, neither stopping short of the base nor artificially cut back to reveal stonework beneath.

Walls should be pointed with lime-based mortar using local sand. The mortar should always be softer than the material it is binding. Joints should be marginally recessed, or buttered in areas of roughly cut stone.

Woodwork would have been either painted or left to weather naturally. The paint colour often showed to which rural estate a farm belonged; for example, a distinctive deep maroon was used by the Penrhyn Estate that stretched across much of north-west Wales, a grey-blue by the Llanover Estate and a red by Dolaucothi. Paint was used simply for the preservation of woodwork, not to make the building look appealing, and in days gone by animal dyes or ox blood were used to create rich deep colours daubed on in thick layers. Dark paint colours of a matt or semi-gloss type best reflect this utilitarian tradition and allow woodwork to blend into the elevation. A regular cycle of repainting (every four years or less) is the best way to protect woodwork, with occasional touching-up as necessary. On Grade I and Grade II* buildings, lead paint with appropriate certification may be used. The use of stain, on the other hand, is not traditional and creates an artificial and often orangey

artiffisial sydd yn aml yn rhy felyngoch. Credir weithiau bod staen yn orffeniad parhaol sy'n arbed ailbaentio'n rheolaidd ond mae'n bosibl iddo gael ei grafu yr un mor hawdd â phaent ac mae'n anos ei dwtio.

Gellir gadael i rai mathau o bren newydd, er enghraifft, derw a llarwydden Ewrop hindreulio yn naturiol. Er eu bod yn llachar ar y dechrau, ymhen blwyddyn byddant wedi'u troi'n llwydwyn a byddant yn parhau felly bron am byth.

Beth bynnag fo'r gorffeniad allanol a ddefnyddir dylid sicrhau yn y pen draw y cedwir cymeriad yr adeilad fferm yn hytrach na'i drin yn estyniad i'r ffermdy.

Defnyddiwch orffeniadau traddodiadol megis gwyngalch a phaent neu gadewch i waith coed hindreulio yn naturiol ac yn y ffordd hon byddwch yn sicrhau bod yr adeilad wedi'i addasu yn cadw'n nes at ei gymeriad amaethyddol blaenorol. Cadwch yr amrywiaeth o liw a gwedd deunyddiau gwahanol.

Y lleoliad

Bydd adeiladau fferm fel arfer mewn buarth ac felly mewn lleoliad ymarferol gydag arwynebau plaen heb 'ategolion'.

Nid yw buarthau gweithredol yn fannau taclus iawn ac mae angen ymgymryd â'r broses 'dacluso' wrth addasu adeiladau gyda gofal mawr. Er mai dim ond cerdded ar draws buarth y mae buchod, efallai y bydd pobl sy'n byw yn yr adeilad wedi'i addasu am gael gerddi, ffensys, manau parcio ceir, dreifiau, goleuadau, dysglau lloeren, biniau sbwriel ac ati. Mae'n ddigon hawdd canolbwyntio ar

finish. It is sometimes thought that stain is a permanent finish that saves the need to repaint periodically but it can be scratched just as easily as paint and is less easy to touch up.

Certain new timbers, for example, oak and European larch, can be left to weather naturally. Whilst they have a bright appearance when new, within about a year they will weather to a silvery grey colour and will remain like this almost indefinitely.

Whatever external finish is used the end result should maintain the character of the farm building rather than treat it as an extension of the farmhouse.

Use traditional finishes such as limewash and paint or leave woodwork to weather naturally and in this way enable the converted building to retain more of its former agricultural character. Retain the variety of the colour and texture of different materials.

The setting

Farm buildings are often found within farmyards in a functional setting with simple surfaces and an absence of 'accessories'.

Working farmyards are not very tidy places and the 'tidying-up' process of conversion demands great care. While a cow uses a yard to walk across, people occupying the converted building may want gardens, fences, car parking areas, drives, lighting, satellite dishes, waste bins and so on. It is all too easy to concentrate on the conversion of



Mae pren sydd wedi hindreulio yr un mor addas ar gyfer adeiladau fferm.

Wood left to weather naturally is equally appropriate for farm buildings.



addasu'r adeilad ac anghofio am yr ardal o'i amgylch. Mae'n hawdd i leoliad rhy ddomestig ei naws amharu ar addasiad da a dylid defnyddio amodau tirlunio ar ganiatadau cynllunio i reoli hyn.

Mae addasiad sensitif yn osgoi dreifiau ffurfiol ac arwynebau tarmac a'r math o leiniau gwelededd a chylchoedd troi safonol a geir ar briffyrdd. Dylid gosod cyn lleied o oleuadau allanol â phosibl ac yn ddelfrydol dylent fod ar system is-goch oddefol er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd eu hangen y byddant yn cynnau. Dylid ceisio osgoi unrhyw beth sy'n rhannu'r buarth, yn enwedig manau parcio, gerddi a manau amwynder eraill a'u ffensys cysylltiedig. Lle y bo modd dylai'r rhain fod y tu allan i'r grŵp fferm, er y dylid ystyried wedyn pa effaith a geir ar y dirwedd. Os caiff sbwriel ei gasglu'n uniongyrchol o'r adeilad fferm a addaswyd bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am fannau troi ar gyfer lorïau sbwriel, felly dylid rhoi sylw i'r trefniadau casglu sbwriel.

Ceisiwch beidio â thanseilio ansawdd yr addasiad drwy esgeuluso'r lleoliad. Mae hen fuarth heb ei dwtio'n berffaith yn creu'r cymeriad cywir.

Manyllder

Gellir amharu ar gynllun sy'n un da at ei gilydd drwy osodiadau a ffitiadau cartref ansensitif nad ydynt yn gweddu i hen adeilad fferm. Er enghraifft, dylai nwyddau casglu glaw weddu i'w hamgylchiadau gymaint â phosibl gan na fyddent wedi cael eu defnyddio ar y rhan fwyaf o adeiladau fferm. Dylai gwasanaethau fod yn

the building and to forget the surroundings. A good conversion can easily be let down by an overly domesticated setting and landscaping conditions on planning consents should be used to control this.

A sensitive conversion avoids formal drives and tarmac surfacing and standard highway-type visibility splays and turning circles. External lighting should be kept to an absolute minimum and ideally should be on a passive infrared system so that lights are activated only when needed. Anything that divides the farmyard should be resisted and this particularly includes car parking, gardens and other amenity spaces and their associated fences. Where possible, these should be on the outside of the farm group, though consideration should then be given to the effect on the landscape. If rubbish is collected directly from the converted farm building, the local authority will require turning areas for refuse carts; so attention should be paid to collection arrangements.

Avoid undermining the quality of the conversion by neglecting the setting. An unmanicured former farmyard creates the right kind of character.

Attention to detail

A good overall design can still be let down by insensitive domestic fixtures and fittings that look out of place on a former farm building. For example, rainwater goods should be as unobtrusive as possible as they would not have been used on most farm buildings. Services should be discreet,



Mae lleoliad buarth yr addasiad ysgubor preswyl hwn (gyferbyn) wedi'i gadw drwy greu gardd a manau parcio y tu allan i'r grŵp o adeiladau (uchod).

The farmyard setting of this residential barn conversion (opposite) has been preserved by creating garden and parking areas on the outside of the group of buildings (above).



Mae'r defnydd o nwyddau drysau syml yn briodol ar gyfer cyn adeilad amaethyddol.

The use of simple door furniture is appropriate for a former agricultural building.

anymwthgar a dylid osgoi pibelli gorlif a phibelli carthion diangen ar wal allanol yr adeilad.

Rhaid annog addasiadau sy'n effeithlon o ran ynni, ond nid yw paneli haul yn gweddu ac maent yn ymwthgar ar hen adeiladau fferm. Mae morthwyl drws pres cain yn rhy ddomestig ei naws, ond bydd clicied syml ar ffurf clicied Suffolk a chloeon dan haen o bowdr du yn gwneud y tro a byddant yn gweddu'n well i arddull yr adeilad. Mae blwch llythyrau y tu allan mewn man priodol yn well na blwch llythyr wedi'i osod yn y drws. Os oes angen goleuadau allanol o gwbl, dylent fod yn rhai diaddurn; mae braced grom a chwfl dros y bwlb yn ddigonol, a dylai fod modd eu diffodd pan nad oes eu hangen. Dylid osgoi dysglau lloeren ac erialau teledu gymaint â phosibl a dylid eu gosod fel nad ydynt yn ymwthgar. Gellir eu gosod ar bolyn telegraff neu mewn coeden neu hyd yn oed ar y ddaear. Pan fo addasiad yn creu grŵp o unedau, dylid gosod cebl o un ddysgl loeren i bob uned yn hytrach na gosod dysgl ar bob un. Dylid gosod larymau lladron a mesuryddion mewn lleoliad sensitif, a dylid osgoi gosod ceiliog gwynt a nodweddion addurniadol eraill nad ydynt yn draddodiadol.

Bydd addasiad sensitif yn lleihau effaith nodweddion domestig ar y tu allan cymaint â phosibl drwy osod y nodweddion sydd eu hangen mewn ffordd mor anymwthgar â phosibl a chan ddefnyddio nodweddion plaen addas.

Bywyd gwyllt mewn adeiladau hanesyddol

Mae adeiladau fferm yn aml yn fannau clwydo, yn enwedig i ystlumod a thylluanod.

avoiding unnecessary overflow pipes and soil pipes on the outside of the building.

Energy efficient conversions are to be encouraged, but solar panels are out of character and obtrusive on former farm buildings. An elaborate brass door-knocker is overtly domestic, whereas a simple Suffolk latch and black powder-coated locks are more in keeping with the building style. An appropriately sited, externally mounted letterbox is preferable to one inserted in the door. If an external light is necessary at all, it should be kept simple; a curved bracket and a cowl over the bulb are sufficient, and it should be possible to turn it off when not needed. Satellite dishes and television aerials should be kept to a minimum and should be discreetly positioned. They can be sited on an adjacent telegraph pole or a tree or even at ground level. If there is a group of units in the conversion one satellite dish should be cabled into all the units rather than installing a separate dish on each. Burglar alarms and meter boxes should be sited sensitively, and weathervanes and other out-of-character ornamental features should be avoided.

A sensitive conversion minimizes the impact of domestic features on the exterior by positioning those that are necessary as discreetly as possible, and utilizing those of a suitably simple style.

Wildlife in historic buildings

Farm buildings are favoured roosting places, for bats and owls in particular.

Dylid ystyried sut y gellir darparu ar gyfer y rhywogaethau hyn sydd wedi'u diogelu drwy greu tyllau i dylluanod a chadw manau clwydo ystlumod. Fel arall, efallai y bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gallu rhoi cyngor ar sut i'w hannog i symud i gynefin newydd.

Bydd addasiad sensitif yn cadw at delerau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985.

Consideration should be given to making provision for these protected species by creating owl holes and maintaining bat roosts. Alternatively, the Countryside Council for Wales may be able to advise how to encourage a move to a new habitat.

A sensitive conversion will abide by the terms of the Wildlife and Countryside Act 1985.

'...barns inherently possess a timeless quality, borne of straightforward design and traditional materials, which is best sustained by restraining architectural exuberance.'

Elric Endersby, Alexander Greenwood and David Larkin, *Barn Preservation and Adaptation*, (Universe Publishing, 2003)



Mae adeiladau fferm yn darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt fel ystlumod a thylluanod gwynion (uchod), a dylid ystyried hyn wrth gynllunio i'w haddasu (rspb-images.com/John Markham).

Farm buildings provide habitats for wildlife such as bats and barn owls (above), and this should be considered when planning to convert them (rspb-images.com/John Markham).



Deddfwriaeth

Rheoliadau Adeiladu

Un o heriau addasu adeilad fferm yw cyflawni'r uchod tra'n dal i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Gall hyblygrwydd ar ran awdurdodau lleol fod o gymorth yn y broses hon, drwy ganiatáu rhai gofynion sy'n rhagori ar y rheoliadau er mwyn gwneud iawn am fethu eraill. Er enghraifft, gall to sydd wedi'i inswleiddio'n arbennig o dda wneud iawn am y gwres a gollir drwy osod gwydr mewn drysau mawr ysgubor. Yn yr un modd, efallai y caiff rhai systemau gwresogi ac awyru eu derbyn fel modd i sicrhau nifer y newidiadau aer sydd eu hangen heb ffenestri o'r maint angenrheidiol ymhob ystafell.

Mewn rhai adeiladau, nid dim ond y rhai sy'n agored i'r cyhoedd, mae angen darparu mynediad i bobl ag anableddau; er enghraifft, drwy fynedfa llawr gwastad a thoiled ar y llawr daear sydd wedi'i gynllunio'n briodol. Rhaid hefyd ystyried llwybrau dianc pan fo argyfwng. Nid oes rhaid i'r llwybr hwn fod drwy ffenestr ymhob ystafell. Efallai y bydd yn dderbyniol cynnig ateb lle mae modd dianc o'r ystafell i ystafell arall y gellir gadael yr adeilad yn ddiogel oddi yno. Bydd yn rhaid asesu risgiau ateb o'r fath. Ac nid oes angen ychwaith osod rhesi o ffenestri dianc yn y to; pa un a ydynt yn ffenestri to cadwraeth ai peidio, dim ond yn niffyg popeth arall y dylid eu defnyddio. Mae iechyd a lles y bobl sy'n byw yn yr adeilad yn hollbwysig, ond anaml y mae'r ffyrdd safonol o sicrhau hyn yn

Legislation

Building Regulations

One of the challenges of converting a farm building is to achieve all of the above whilst still complying with Building Regulations. Flexibility on the part of local authorities can assist in this process, by allowing certain requirements that have been exceeded to compensate for under-performance on others. For example, a particularly well-insulated roof might compensate for the heat loss resulting from glazing the huge barn door openings. Similarly, there are heating and ventilation systems that might be accepted as a means of achieving the required number of air changes without having windows of the required size in each room.

In some buildings, not just those open to the public, it is necessary to provide access for people with disabilities; for example, by providing a level entrance and an appropriately designed toilet on the ground floor. Escape routes in an emergency must also be considered. This does not have to be through a window in each room. It may be acceptable to have a risk-assessed solution where escape is achieved from the room into another space that has safe egress from the building. Nor is it necessary to install rows of escape rooflights; whether conservation rooflights or not, they should still be a feature of last resort. The health and safety of the occupants are paramount, but the standard ways of achieving these



Gyferbyn a thop: Yng Nghastell y Waun, crëwyd derbynfa i ymwelwyr o hen Fferm y Faenor, ond mae'r adeiladau a'r buarth coblog wedi cadw eu cymeriad gwreiddiol. Uchod: Defnyddir yr ysgubor hon bellach fel siop grefftau ond mae ei nodweddion gwreiddiol fel drysau dwbl y sied droliau wedi'u cadw.

Opposite and top: At Chirk Castle, a visitor reception area has been created from the former Home Farm, but the buildings and cobbled yard have retained their original character. Above: This barn is now used as a craft shop but its original features, such as the double cart-shed doors, have been preserved.



Gall addasu adeilad amaethyddol segur gynnis cyfle i fyw mewn ardal wledig brydferth. Os caiff ei gynllunio mewn modd sensitif, bydd yn parhau i gydweddu â'i amgylchfyd ac yn cadw rhan fach ond arwyddocaol o dreftadaeth adeiledig Cymru.

Converting a redundant agricultural building may offer the opportunity to live in beautiful countryside. If designed sensitively, it will still blend into its surroundings and preserve a small but significant part of the built heritage of Wales.

gymwys i adeiladau ansafonol megis hen adeiladau fferm.

Chwiliwch am ffyrdd creadigol o gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu heb newid cymeriad yr adeilad yn ormodol.

Deddfwriaeth a'r system gynllunio

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio i addasu adeiladau fferm. Os mai adeilad rhestredig ydyw neu os yw yng nghwrtil adeilad rhestredig bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig hefyd ar gyfer y gwaith o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Dylid gwneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn anelu at wneud penderfyniad o fewn wyth wythnos; fodd bynnag, oherwydd y materion sy'n codi ynglŷn ag addasu adeiladau fferm gallai gymryd mwy o amser weithiau i ddod i benderfyniad terfynol. Os gwrthodir caniatâd gall y ceisydd apelio ac yna bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud penderfyniad.

Mae polisi cynllunio yn amrywio o un awdurdod i'r llall ond fel arfer caiff addasiad priodol o adeilad gweddol gyflawn ei ganiatáu. Os yw'r adeilad wedi adfeilio'n llwyr, dim ond os yw'n adeilad rhestredig y caniateir ei addasu.

Yn aml caiff cynllun addasu ei lywio gan drafodaethau gyda'r swyddog cynllunio cyn gwneud cais lle y gellir ystyried materion o ran y dyluniad yn gynnar yn y broses.

seldom apply to non-standard buildings such as former farm buildings.

Look creatively at how to comply with Building Regulations whilst not altering excessively the character of the building.

Legislation and the planning system

The Town and Country Planning Act 1990 requires planning permission to be obtained for farm building conversions. If the building is listed or in the curtilage of a listed building the work will also require Listed Building Consent under the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990. Applications should be made to the local planning authority who will aim to make a decision within eight weeks; however, the issues surrounding farm building conversions mean it may sometimes take longer to reach a final decision. If consent is refused the applicant can appeal and a decision will then be made by the Welsh Assembly Government.

Planning policy varies from one authority to another but the appropriate conversion of a reasonably complete building will normally be allowed. If the building is completely derelict, conversion may be allowed only if it is listed.

A conversion scheme can often be informed by pre-application discussions with the planning officer, when design issues can be worked through at an early stage.

Ffynonellau o Wybodaeth Bellach

Cadw, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn 029 2050 0200 www.cadw.wales.gov.uk

Cadw yw asiantaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ddiogelu, cadw a hyrwyddo henebion ac adeiladau hanesyddol yng Nghymru.

Swyddogion Cadwraeth Awdurdodau Cynllunio Lleol

Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu adeiladau fferm rhestredig gan gynnwys y rhai sydd yng nghwrttil adeiladau rhestredig (er enghraifft, ffermdai). Dylid cysylltu â'ch Swyddog Cadwraeth Lleol yn gynnar yn ystod y broses.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Ganolfan Gyhoeddiadau, Stryd Pierhead, Caerdydd CF99 1NA

Ffôn 029 2089 8688 www.wales.gov.uk

Nodyn Cyngor Technegol 12: *Dylunio* (2002)

Polisi Cynllunio Cymru (2002)

Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Cymreig Cynllunio a'r Amgylchedd

Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Cymreig Cynllunio a'r Amgylchedd

Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW

Tel 01248 385500 www.ccw.gov.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghorwr statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwylt a'r cyfle i fwynhau cefn gwlad Cymru a dyfroedd ei glannau. Y Cyngor yw'r awdurdod cenedlaethol ar gadwraeth bywyd gwylt.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Adeilad y Goron, Plas Crug, Aberystwyth SA23 1NJ

Ffôn 01970 621200 www.rcahmw.org.uk

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn arolygu, yn dehongli ac yn cofnodi treftadaeth adeiledig Cymru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyfrwng cymorth grant a phartneriaethau, ac yn trefnu i'r wybodaeth honno fod ar gael i'r cyhoedd drwy archif a gwasanaeth gwybodaeth Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Sources of Further Information

Cadw, Crown Building, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Tel 029 2050 0200 www.cadw.wales.gov.uk

Cadw is the historic environment agency of the Welsh Assembly Government with responsibility for protecting, conserving and promoting ancient monuments and historic buildings in Wales.

Local Planning Authority Conservation Officers

Listed Building Consent is required for conversion of listed farm buildings including those that are in the curtilage of listed buildings (for example, farmhouses). Contact should be made with your local Conservation Officer at an early stage in the process.

National Assembly for Wales, The Publications Centre, Pierhead Street, Cardiff CF99 1NA

Tel 029 2089 8688 www.wales.gov.uk

Technical Advice Note 12: *Design* (2002)

Planning Policy Wales (2002)

Welsh Office Circular 61/96 *Planning and the Historic*

Environment: Historic Buildings and Conservation Areas

Welsh Office Circular 1/98 *Planning and the Historic*

Environment: Directions by the Secretary of State for Wales

Countryside Council for Wales, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW

Tel 01248 385500 www.ccw.gov.uk

The Countryside Council for Wales is the Government's statutory adviser on sustaining natural beauty, wildlife and the opportunity for outdoor enjoyment in Wales and its inshore waters. It is the national wildlife conservation authority.

Royal Commission on the Ancient and Historic Monuments of Wales, Crown Building, Plas Crug, Aberystwyth SA23 1NJ

Tel 01970 621200 www.rcahmw.org.uk

RCAHMW surveys, interprets and records the built heritage of Wales, either directly or through grant aid and partnerships, and makes information available to the public through the National Monuments Record of Wales.

© Cadw
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

© Cadw
Crown Building
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ